Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gymraeg

2022 – 2023

Cynnwys:

Cyflwyniad	**3**
Safonau Gwasanaethau Cymraeg	**4**
Safonau Llunio Polisi	**7**
Safonau Gweithredu	**7**
Safonau Cadw Cofnodion	**11**
Prosiectau 2022/23	**12**
Mwy na Geiriau 2022/27	**15**

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn ar y Gymraeg yn amlinellu cyflawniadau allweddol yn ystod 2022/2023 o ran darparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a pherfformiad yn unol â Safonau'r Gymraeg (rhif 7) 2018 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn gyffredinol, rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus yn gweithredu safonau'r Gymraeg ac yn cynyddu ein gallu i gynnig gwasanaethau Cymraeg drwy systemau deinamig.

Mae'r cynnydd yn ein gwasanaethau cyfieithu yn parhau i dyfu, ac rydym wedi buddsoddi mewn adnoddau staff a thechnoleg er mwyn ateb y galw cynyddol am ein gwasanaethau.

Mae Safonau'r Gymraeg (rhif 7) 2018 yn rhan annatod o'n cynllunio gwasanaeth, yn ogystal â blaenoriaethau Strategaeth Mwy Na Geiriau ar gyfer 2022 – 2027, a lansiwyd ym mis Medi 2022. Mae safonau a strategaethau yn parhau i fod yn ganolog wrth gynllunio a meincnodi ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Safonau Gwasanaethau Cymraeg

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella ein cydymffurfiaeth â'r holl Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn PCGC, mae'n ofynnol i bob isadran neu faes cyflenwi gwasanaeth hunanasesu yn erbyn gofynion pob un o'r safonau mewn meysydd categori.

Mae'r offeryn hunanasesu yn darparu sail ar gyfer sgyrsiau a rhoi cynlluniau gwella a gweithredu lleol ar waith, ac mae hefyd yn rhoi gwybod i ni lle mae angen cymorth pellach i gryfhau'r gwasanaeth a gynigir.

Bydd yr hunanasesiad hefyd yn ein galluogi i rannu arfer gorau rhwng isadrannau a meysydd darparu gwasanaethau ar draws y sefydliad.

Roedd canlyniad cyffredinol yr Hunanasesiad ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

Set o Safonau	**Lefel cydymffurfio**
Gohebiaeth (1,4,5,6,7)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Prif rif gwasanaethau ffôn/canolfannau cyswllt (8,9,10,11,12,13,14,15,16)	Lefel isel i ganolig o gydymffurfiaeth
Rhifau uniongyrchol gwasanaethau ffôn (16,17,18, 19)	Lefel isel i ganolig o gydymffurfiaeth
Systemau ffôn awtomataidd (20)	Lefel ganolig i uchel o gydymffurfiaeth
Cyfarfodydd (21,22, 22A, 22CH)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Cyfarfodydd Cyhoeddus (26,27,28,29)	Ddim yn berthnasol
Arddangos deunydd ysgrifenedig mewn cyfarfodydd cyhoeddus (30)	Ddim yn berthnasol
Digwyddiad Cyhoeddus (31,32,33,34)	Lefel ganolig i uchel o gydymffurfiaeth
Ffurflenni i'w llenwi gan unigolion (36)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Dogfennau sydd ar gael i unigolion (37)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Dogfennau a Ffurflenni (38)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Gwefannau (39,40,41,42,43)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Apiau (a ddefnyddir ar ddyfeisiau electronig) (44)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Cyfryngau cymdeithasol (45,46)	Lefel ganolig i uchel o gydymffurfiaeth
Arwyddion mewn mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd (47,48,49)	Lefel ganolig i uchel o gydymffurfiaeth
Gwasanaethau derbynfa (50, 52, 53)	Lefel ganolig o gydymffurfiaeth
Ceisiadau a dogfennau ar gyfer grantiau (54,55,56)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth

Gwahoddiadau i Dendro (57,58,59)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg (60-61)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Hunaniaeth Gorfforaethol (62)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Systemau Annerch Cyhoeddus (64)	Ddim yn berthnasol

Rydym yn adolygu ein protocolau sydd ar gael i bob aelod o staff a gyflogir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn flynyddol i sicrhau bod ein protocolau a'n prosesau yn gyflawnadwy ar draws pob maes darparu gwasanaeth. Mae pob protocol ar gael ar ein tudalen gymorth iaith Gymraeg fewnol.

Hyrwyddwn ein bod yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ar ein gwefannau ac mewn e-byst a phenawdau llythyrau corfforaethol.

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd bellach yn cael eu cynnal ar blatfformau rhithwir, megis Microsoft TEAMS a Zoom.
Mae gennym brotocol ynglŷn â sut y gellir hwyluso cyfarfodydd yn y ddwy iaith ac mae Uned y Gymraeg yn cefnogi pob isadran a maes cyflenwi gwasanaethau i ddod o hyd i gyfieithwyr ar y pryd yn ôl yr angen.

Fel sefydliad, nid ydym yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus lle gwahoddir y cyhoedd i gymryd rhan neu i siarad, felly, rydym yn ystyried nad yw'r safonau hyn yn berthnasol.
Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod agendâu a chofnodion Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan.

Nid yw'r rhan fwyaf o'n digwyddiadau yn rhai cyhoeddus. Fodd bynnag, pan fydd digwyddiad yn cael ei drefnu, mae gennym brotocol a rhestr wirio yn eu lle ar gyfer trefnwyr digwyddiadau i sicrhau eu bod yn ystyried ac yn darparu ar gyfer y Gymraeg wrth gynllunio digwyddiadau.

Mae holl Ffurflenni a Dogfennau PCGC y bwriedir eu defnyddio gan unigolion ar gael yn Gymraeg, boed yn gopïau caled neu'n gopïau digidol. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig i ni roi cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r adnoddau hyn lle mae staff yn rheoli eu gweinyddu a'u lledaenu.

Mae ein gwefannau a'n tudalennau ar gael yn Gymraeg. Mae'r gwefannau'n cael eu harchwilio'n chwarterol gan yr Uned Gymraeg, ac os canfyddir nad yw unrhyw gynnwys yn cydymffurfio, cysylltir ar unwaith ag awduron y we gyda rhestr o argymhellion a chywiriadau i'w gwneud. Mae lefel uchel o gydymffurfiaeth ar ein gwefannau ac mae gennym brotocol cadarn ar waith i sicrhau bod tudalennau ein gwefan yn parhau i gydymffurfio'n llawn.

Mae cymwysiadau sydd i'w defnyddio ar ddyfeisiadau electronig sydd at ddefnydd cleifion, y cyhoedd yn gyffredinol neu staff, mewn perthynas benodol â'u cyflogaeth ar gael yn Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae gennym system Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) effeithiol sy'n pennu gofynion y Gymraeg ar gyfer cymwysiadau. Mae Rheolwr yr Iaith Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'n Cyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad sydd hefyd yn gartref i'n Swyddfa TGCh a Rheoli Prosiectau.

Mae ein postiadau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cynllunio ymlaen llaw ac yn cael eu cyfieithu, os oes angen, cyn unrhyw ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn ateb negeseuon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn Gymraeg os oes angen ateb.

Ar hyn o bryd mae gennym 12 cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar gyfer PCGC, sy'n cynnwys 2 sianel You Tube a 10 cyfrif Twitter. Mae gan bob cyfrif weinyddwyr penodedig o'r adrannau y maent yn eu cynrychioli. Cânt eu hyfforddi gan y Tîm Cyfathrebu ac fel rhan o'r hyfforddiant hwnnw, cânt eu gwneud yn ymwybodol o ofynion Safonau'r Gymraeg. Mae pob cyfrif yn cael ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth gan y tîm Cyfathrebu bob mis ac mae gennym ni brotocol cyfryngau cymdeithasol i staff ei ddilyn er mwyn sicrhau bod postiadau'n cydymffurfio â Safonau 45 a 46. Pe baem yn canfod nad oedd cyfrifon yn cydymffurfio ar unrhyw un adeg, byddwn yn codi hyn gyda'r gweinyddwyr ac yn unioni'r sefyllfa.

Mae arwyddion a hysbysiadau yn ein hadeiladau/safleoedd yn ddwyieithog ac mae arweinwyr/rheolwyr safleoedd yn gyfrifol am sicrhau bod holl arwyddion a hysbysiadau PCGC ar gael yn y ddwy iaith. Maent yn cynnal archwiliad rheolaidd i wirio arwyddion ar ein safleoedd.

Mae gennym wasanaethau derbynfa ar draws 4 safle gweinyddol ar gyfer PCGC.

Cefnogir ein swyddfa yng Nghaerdydd gan wasanaethau derbynfa'r adeilad, nad ydym yn gyfrifol amdanynt. Mae ein derbynfa yn ein swyddfa yng ngogledd Cymru yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i ymwelwyr.

Mae staff derbynfa ein dau safle arall yn ne Cymru wedi cael cymorth i ddysgu ymadroddion Cymraeg allweddol er mwyn gallu cyfarch ymwelwyr i'n hadeiladau. Mae protocol yn ei le i gefnogi gwasanaethau derbynfa Cymraeg ymhellach os oes angen.

Nifer cyfartalog yr ymwelwyr rydym yn eu croesawu i'n hadeiladau ar ôl pandemig Covid-19 yw 10.5 ymwelydd y mis fesul safle ar gyfartaledd. Mae'r rhan fwyaf o'n staff bellach yn gweithio gartref ac yn dueddol o gynnal cyfarfodydd/apwyntiadau rhithwir.

Yn ystod 2022/23 fe ddatblygom Cynllun Bwrsariaeth Myfyrwyr newydd, bydd y system yn lansio ar 1 Ebrill 2023, a bydd yn gwbl weithredol yn Gymraeg. Y System Dyfarniadau Myfyrwyr yw'r unig raglen rhoi grantiau yr ydym yn ei chynnal yn PCGC. Yn ystod 2023/24 byddwn yn datblygu'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr i fod yn gwbl ddwyieithog a'i lansio erbyn 2024/25.

Ni chawsom unrhyw geisiadau am Wahoddiad i Dendr trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2022/23. Ni chawsom unrhyw dendrau trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2022/23. Fodd bynnag, rydym yn hyfforddi ein holl staff caffael i herio'r holl staff comisiynu mewn Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ynghylch gofynion y Gymraeg wrth gontractio gwasanaethau. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar fanyleb y gwasanaeth/system neu nwyddau sydd eu hangen ac yn amlinellu'r gofynion hynny'n glir mewn gwahoddiadau i dendro.

Ymchwiliad i Wasanaethau Ffôn – canlyniadau yn yr arfaeth.
Ni chawsom unrhyw gwynion na phryderon am ein gwasanaethau yn 2022/23.

Fodd bynnag, cysylltodd Swyddfa Comisiynydd Cymru â ni ym mis Hydref 2022, yn ein hysbysu bod swyddfa'r Comisiynydd wedi cynnal cyfres o alwadau siopwyr dirgel i rifau ffôn detholedig Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, un o'r rhifau hynny oedd ein prif rif ffôn, lle gwnaethom fethu â chynnig gwasanaeth Cymraeg ar ein prif rif ffôn 01443 848585 am 11.54am ar 24 Mehefin 2022.

Ymchwiliodd Rheolwr y Gymraeg yn fewnol a darparodd ymateb i Gomisiynydd y Gymraeg erbyn 31 Ionawr 2023. O 31 Mawrth 2023 ymlaen, rydym yn dal i aros am ganlyniad yr ymchwiliad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Rydym wedi amlinellu gwelliannau y bwriadwn eu gwneud yn ein hymchwiliad ac wedi dechrau cyflwyno'r gwelliannau hynny mewn meysydd blaenoriaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2023/24.

Safonau Llunio Polisi (Safonau 69 – 77)

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn cael ei letya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.
Mae ein holl bolisïau felly yn bolisïau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn dilyn polisïau Cymru gyfan, sy'n ystyried y Gymraeg pan gânt eu cynhyrchu neu eu hadolygu.

Pryd bynnag y bydd angen i ni ddatblygu neu adolygu protocol PCGC lleol, rydym yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth ddatblygu neu adolygu'r protocol hwnnw. Mae'r holl brotocolau perthnasol ar gael yn Gymraeg.

Mae gennym bolisi ar y defnydd o'r Gymraeg yn PCGC ac mae ar gael ar ein tudalen ar y fewnrwyd sy'n cefnogi'r Gymraeg.

Safonau Gweithredu (Safonau 79 – 114)

Fel rhan o'r broses hunanasesu fe wnaethom hefyd gynnwys y safonau gweithredu.
Mae canlyniadau'r hunanasesu ar gyfer y Safonau Gweithredu fel a ganlyn:

Set o Safonau	Lefel cydymffurfio
Polisi Iaith Gymraeg – Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (79)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Cytundeb Cyflogaeth (80)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Dogfennau yn ymwneud â chyflogi gweithwyr (81)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Polisïau yn ymwneud â chyflogaeth a'r gweithle (82)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth

Cwynion gan staff a materion disgyblu (83 – 88)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer sillafu a gramadeg a rhyngwynebau (89)	Lefel ganolig i uchel o gydymffurfiaeth
Tudalennau Mewnrwyd (90 - 95)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Asesu sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion (96)	Lefel ganolig o gydymffurfiaeth
Hyfforddiant i staff mewn meysydd allweddol (97 a 98)	Lefel ganolig i uchel o gydymffurfiaeth
Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg (99 – 103)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Llofnodion e-bost, geiriad a logo Cymraeg (104)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Bathodynnau Cymraeg a brandio ar gyfer staff (105)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Asesu sgiliau, hysbysebu, recriwtio a chynefino (106 – 109)	Lefel ganolig i uchel o gydymffurfiaeth.
Arwyddion a hysbysiadau (113)	Lefel uchel o gydymffurfiaeth
Cyhoeddiadau wedi'u recordio (114)	Ddim yn berthnasol.

Mae gennym brotocol Cymraeg lleol ar gyfer PCGC ac mae hwn ar gael i'r holl staff ar ein tudalen gymorth iaith Gymraeg ar y fewnrwyd. Caiff ei gyfathrebu'n eang a chyfeirir ato hefyd mewn cyfarfodydd ag adrannau.

Mae'r contract cyflogaeth, polisïau a dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth ar gael yn Gymraeg ac ar gael ar ein tudalennau mewnrwyd Pobl a Datblygu Sefydliadol i'r holl staff eu gweld.

Mae polisi Cymru gyfan ar gwynion a disgyblaethau, ac mae'r Gymraeg wedi'i hystyried wrth ddatblygu a chyflawni'r polisi hwnnw. Mae'r polisi ar gael yn Gymraeg.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae meddalwedd Cymraeg ar gael i staff ar draws y sefydliad.

Mae'r holl dudalennau mewnrwyd a nodir yn ein hysbysiad cydymffurfio ar gael yn Gymraeg. Pan fydd tudalen newydd yn cael ei chynhyrchu a'i chyhoeddi fe'i gwneir yn Gymraeg ar yr un pryd â'r dudalen Saesneg. Cynhelir unrhyw adolygiadau a diweddariadau yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Mae record PCGC ar gyfer cofnodi sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd yn 95%. Rydym yn cydnabod bod angen i ni ddod o hyd i ateb i alluogi hyfforddeion ar raglen SLE i allu cyrchu ESR o ddyfeisiau clyfar i allu diweddaru eu sgiliau ar ESR. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn 2023/24.

Rydym wedi datblygu nifer o gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg:

- Mae'r holl hyfforddiant statudol a gorfodol ar ESR ar gael yn Gymraeg, mae'r rhain hefyd yn cynnwys delio â'r cyhoedd, iechyd a diogelwch
- Rydym yn darparu hyfforddiant i reolwyr ar gyfer recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu a delio â'r cyhoedd. Rydym yn ymgorffori ystyriaethau iaith Gymraeg yn yr hyfforddiant ei hun.
- Rydym hefyd wedi datblygu hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a chyfweliadau ac ategir y rhain gan brotocolau lleol.
- Mae hyfforddiant ar gael ar bolisi Cymru gyfan ar drin a rheoli cwynion a gweithdrefnau disgyblu.

Cefnogir yr holl hyfforddiant gan brotocolau lleol i reolwyr a staff eu dilyn er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau 97 a 98.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant i staff i ddysgu'r Gymraeg ac i fod yn ymwybodol o iaith a diwylliant Cymru.

Yn 2022/23, derbyniodd 108 aelod o staff hyfforddiant ymsefydlu, ac yn rhan o'r hyfforddiant hwnnw mae gwybodaeth am y Gymraeg a'u rhwymedigaethau fel gweithwyr cyflogedig i gydymffurfio â'n safonau iaith Gymraeg. Cânt hefyd eu hysbysu a'u cyfeirio at ble y gallant ddod o hyd i gefnogaeth i ddarparu ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cynnig nifer o gyfleoedd i gyflwyno ein staff i'r iaith a diwylliant Cymru. Fel y nodir yn Safonau 99 i 103.

Cydymffurfio â Safon 106A

Mae Cydwasanaethau GIG Cymru yn categoreiddio swyddi gwag neu swyddi newydd eu creu fel naill ai'r Gymraeg yn hanfodol neu'r Gymraeg yn ddymunol, ac rydym wedi cyflwyno matrics i benderfynu pa gategori sgil sydd fwyaf perthnasol i bob swydd wag. Rydym wedi dyfeisio protocol a system lle mae'r holl hysbysebion yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar system recriwtio TRAC a Swyddi GIG yn y Gymraeg a'r Saesneg ers mis Mehefin 2022. Rydym yn adolygu'r system yn rheolaidd i nodi unrhyw faterion sy'n codi yn y broses o greu hysbysebion ar gyfer swyddi gwag.



Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg:

Ar hyn o bryd mae gennym ddarparwr i gynnal cyrsiau Cymraeg i'n staff.
Roedd y cyrsiau a gynhaliwyd yn 2022/23 fel a ganlyn:

Lefel y Cwrs	**Nifer y staff sydd wedi cofrestru ar y cyrsiau**
Lefel 1 Mynediad	14
Lefel 2 Mynediad	14
Lefel 1 Sylfaenol	4
Lefel 1 Canolradd	3
Lefel 1 Uwch rhan 2	5
Croeso Cymraeg Gwaith rhan 1	10
Cymraeg Gwaith Croeso 'nôl rhan 2	12

Cynhelir yr holl gyrsiau hyn yn ystod amser gwaith. Mae PCGC yn talu am gost y cyrsiau a'r gwerslyfrau fel y sefydliad sy'n cyflogi. Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i holl weithwyr PCGC. Rydym hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd eraill ar wahân i gyrsiau Dysgu Cymraeg, megis Duolingo a Say Something in Welsh.

Safonau Cadw Cofnodion (115 - 117)

Safonau Cadw Cofnodion - Cwynion a Phryderon - Safon 115:

Ni chawsom gŵyn na phryder am ein gwasanaethau yn 2022/23.

Fodd bynnag, cawsom hysbysiad o ymchwiliad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn hydref 2022. Gwnaethom ymateb erbyn 31 Ionawr 2023. Canlyniadau yn yr arfaeth ar 31 Mawrth 2023.

Safonau Cadw Cofnodion - Cofnodi Sgiliau Iaith Gymraeg ar ESR - Safon 116:



Safonau Cadw Cofnodion - Hysbysebu swyddi gwag – Safon 117:

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel:	
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	2
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	646
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	0
Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.	33
Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2022 - 31/03/2023	681

Cytunodd Uwch Grŵp Arwain Cydwasanaethau GIG Cymru yn unfrydol yn 2020/21 y byddai Cymraeg yn Ddymunol yn cael ei gynnwys fel gofyniad sylfaenol ar gyfer hysbysebu swyddi gwag yn PCGC. Rydym yn sefydliad cynhwysol sy'n croesawu ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg.

Y ddwy swydd wag a hysbysebwyd fel rhai Cymraeg yn Hanfodol oedd:

- Cyfieithydd ar gyfer yr Uned Iaith Gymraeg – penodwyd
- Asiant Galwadau ar gyfer Desg Gymorth ESR - penodwyd

Hysbysebwyd llai o swyddi gwag lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol:

- Roedd 15 o'r swyddi gwag hyn yn swyddi gwag prawf, ac ni chawsant eu hysbysebu'n gyhoeddus.
- Roedd 4 o'r swyddi gwag hyn yn hysbysebion cudd/mewnol ar gyfer pobl ar restr adleoli.
- Roedd 14 o'r swyddi gwag hyn oherwydd gwall dynol* a/neu oherwydd hen swyddi gwag a oedd wedi'u storio yn system recriwtio TRAC a oedd wedi'u nodi fel 'nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol' yn flaenorol.

Mae protocol mewn lle i wirio'r sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer swyddi gwag, a bydd y protocol hwn yn cael ei weithredu'n fwy trwyadl yn 2023/24 wrth i ni fynd ati i weithredu'r Strategaeth Moderneiddio Swydd Ddisgrifiadau.

Rydym hefyd wedi nodi bod angen ail-edrych ar swyddi o fewn PCGC lle byddai Sgiliau Iaith Gymraeg yn 'Hanfodol" hyd nes y gall gwasanaethau gynnig o leiaf 20% i 25% o staff sy'n siarad Cymraeg ar draws meysydd cyflenwi gwasanaethau. Y swyddi hyn yw:

- Staff y dderbynfa
- Staff trin galwadau ar y prif rifau ffôn a llinellau cymorth
- Rolau cyfathrebu

Rydym yn bwriadu parhau i feithrin gallu mewn meysydd hollbwysig lle mae ymgysylltu a chydgysylltu â chwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaethau, cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Cyflawnir hyn ynghyd â chyfleoedd i wella a magu hyder yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff presennol a thargedu'r cyrsiau hynny a gynigir i dimau darparu gwasanaethau perthnasol.

Prosiectau a Gwasanaethau Cymorth 2022/23:

Gwasanaethau Cyfieithu:

Mae'r galw am wasanaethau cyfieithu yn parhau i dyfu, ac eleni rydym wedi cyfieithu hyd yn oed mwy o eiriau nag yn 2021/22. Yn 2022/23 mae PCGC wedi cyfieithu cyfanswm o dros 5.2 miliwn o eiriau ar gyfer y sefydliadau canlynol:

- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwerth mewn Gofal Iechyd
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru



Mae'r enghraifft isod yn dangos yn glir y cynnydd yn y galw am wasanaethau cyfieithu Cymraeg gan Uned Iaith Gymraeg PCGC rhwng 2016/17 a 2022/23.
Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg wedi dylanwadu ar y cynnydd yn y galw yn 2019/20 ac mae'r galw wedi cynyddu'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf. Rydym yn parhau i feithrin capasiti i allu cefnogi sefydliadau llai y GIG gyda chymorth gwasanaethau cyfieithu.



Mae'n amlwg bod Safonau'r Gymraeg wedi bod yn sbardun i'r galw am wasanaethau cyfieithu Cymraeg o 2018/19 ymlaen. Mae dyhead a phenderfyniad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a sefydliadau eraill y GIG i wella'r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg i'w gweld yn glir yn y cynnydd yn y ffigurau hyn.

Taflenni Gwybodaeth Cleifion Hawdd eu Darllen
Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal adolygiad llawn o'r taflenni hawdd eu darllen presennol a thaflenni newydd ac wedi sicrhau bod y cyfieithiadau o'r taflenni hyn yn addas ar gyfer y gynulleidfa y'u bwriadwyd ar eu cyfer.

System Dyfarniadau Myfyrwyr
Adolygwyd yr hen system i sicrhau bod taith y defnyddiwr yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod 2022/23 rydym wedi comisiynu datblygwr newydd a System Dyfarniadau Myfyrwyr newydd, lle bydd y rhyngwyneb i fyfyrwyr ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal ag unrhyw awgrymiadau post, gohebiaeth a negeseuon a gynhyrchir gan y system. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2023/24.

System Adrodd y Gweithlu
Mae'r wefan hon yn darparu Porth Gwe ar gyfer Data Gofal Sylfaenol sydd ar gael i staff practisiau meddygon teulu, Clystyrau a Byrddau Iechyd GIG Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid cymeradwy eraill. Mae'r wefan hon ar gael i ddefnyddwyr cofrestredig yn unig. Fodd bynnag, rydym wedi sicrhau bod y system yn ddwyieithog.

Fideo Cyhoeddus Dyletswydd Gonestrwydd
Rydym wedi cefnogi cynhyrchu fideo animeiddiedig ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru am y ddyletswydd gonestrwydd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru.
Mae'r fideo ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cwrs ac Ap Ymwybyddiaeth Gwrth Dwyll
Mae'r Cwrs Ymwybyddiaeth Atal Twyll ar gyfer Staff GIG Cymru Gyfan ar gael yn Gymraeg, yn ogystal â'r ap i Staff y GIG roi gwybod am dwyll neu amheuaeth o dwyll yn GIG Cymru.

Cwrs Ymwybyddiaeth GDPR Cymru Gyfan
Rydym wedi bod yn cefnogi cynhyrchu Cwrs Ymwybyddiaeth GDPR Cymru Gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd hwn ar gael i'w lansio yn 2023/24.

System Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan ar gyfer Staff GIG Cymru
Mae'r fanyleb yn y broses dendro ar gyfer y system hon wedi cynnwys gofynion manwl ar gyfer rhyngwyneb y system ac unrhyw ohebiaeth/negeseuon ac awgrymiadau post i fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd gwaith pellach ar y system hon yn parhau yn 2023/24.

Fideo Hyrwyddo Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
Cynhyrchodd Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd PCGC fideo hyrwyddo i hysbysu ein cwsmeriaid o'r hyn y mae Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd yn ei wneud a sut maent yn cynnal archwiliadau ar draws GIG Cymru. Mae'r fideo hyrwyddo ar gael yn Gymraeg.

Fideo hyrwyddo'r Academi Gyllid
Creodd yr Academi Gyllid a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fideo i hyrwyddo'r cyfleoedd y mae'r Academi Gyllid yn eu cynnig o ran hyfforddiant a gyrfaoedd ym maes cyllid yn GIG Cymru. Mae'r fideo ar gael yn Gymraeg.

Mwy na Geiriau

Cyhoeddwyd cynllun pum mlynedd Mwy Na Geiriau 2022 – 2027 ym mis Medi 2022.
Rydym wedi datblygu cynllun drafft i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer PCGC o ran cefnogi sefydliadau'r GIG a ninnau i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth a nodi cyfleoedd pellach yn y dyfodol i wella ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd cychwynnol (Medi 2022 – Mawrth 2023) i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Mehefin 2023.